

## Polisi Cyfarpar Sgrin Arddangos (CSA)

1. Cyflwyniad
2. I bwy mae'r polisi hwn yn berthnasol?
3. Y sefyllfa gyfreithiol
4. Polisi a Gweithdrefnau
5. Dyletswyddau Gweithwyr
6. Hyfforddiant Gweithwyr
7. Monitro

### 1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae'n bolisi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri bod yr holl ddefnyddwyr cyfrifiaduron (defnyddwyr sgrin arddangos) yn cael eu hasesu ar ôl iddynt ddechrau gweithio gyda ni. Bydd hyn yn ein helpu i benderfynu p'un a ellir eu dosbarthu fel "defnyddwyr" at ddibenion y gofynion cyfreithiol presennol.
- 1.2 Bydd yr asesiad hwn yn cael ei wneud drwy gwblhau holiadur Cyfarpar Sgrin Arddangos (CSA) a weinyddir eich hunan. Bydd hyn wedyn yn pennu a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach. Os felly, bydd asesiad arall yn cael ei drefnu gan y Gwasanaeth Personél.

### 2. I bwy mae'r polisi hwn yn berthnasol?

- 2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff a gwirfoddolwyr Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (cyfeirir atynt i gyd fel 'gweithwyr' yn y polisi hwn).

### 3. Y sefyllfa gyfreithiol

- 3.1 Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â'r defnydd o GSA, fel cyfrifiaduron, yn dod o dan y **Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cyfarpar Sgrin Arddangos) 1992** (y Rheoliadau CSA). Mae'r rheoliadau hyn yn sefydlu cyfres o safonau gofynnol ar gyfer y gorsafoddedd gweithio a ddefnyddir gan ddefnyddwyr CSA. Mae hyn yn cynnwys seddi, lefelau goleuo a chynllun yr orsaf waith. Rydym hefyd wedi ymgorffori diwygiadau a wnaed i'r rheoliadau hyn yn 2002.

### 4. Polisiâu a Gweithdrefnau

- 4.1 Er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau CSA, rydym wedi cyflwyno rhai gweithdrefnau sydd i'w dilyn gan bob aelod o staff. Mae'r rhain fel a ganlyn:
  - Bydd holiadur hunanasesu CSA yn cael ei roi i'r holl weithwyr newydd lle mae'n ofynnol iddynt ddefnyddio cyfrifiaduron fel rhan o'u swydd a dylid ei gwblhau o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl dechrau gweithio gyda ni. Bydd hyn yn cael ei ddarparu i bob aelod newydd fel rhan o'r Pecyn Anwytho a baratowyd gan y Gwasanaeth Personél.
  - Fe ddylai'r holl weithwyr presennol fod wedi llenwi holiadur eisoes. Fodd bynnag, petai aelod o staff yn newid gorsaf waith neu'n dod yn ddefnyddiwr CSA am y tro cyntaf, yna dylai un arall gael ei gwblhau. Dylai hyn gael ei wneud yn fuan ar ôl newid lleoliad neu newid rôl swydd. Er bod gofal wedi ei gymryd i

sicrhau bod yr holiadur yn hunanesboniadol gallwch gyfeirio unrhyw ymholiadau at eich Pennaeth Gwasanaeth.

- pan fo'r holiadur yn pennu problemau, megis llacharedd, cyfrifoldeb Pennaeth Gwasanaeth yr unigolyn yw sicrhau bod y rhain yn cael eu datrys
- anogir staff i gylchdroi eu tasgau gwaith er mwyn treulio o leiaf deng munud ym mhob awr i ffwrdd o sgrin y cyfrifiadur. Dylid treulio'r amser hwn yn gwneud dyletswyddau gwaith eraill megis galwadau ffôn a gweinyddiaeth swyddfa gyffredinol. Os bydd unrhyw gyflogai'n teimlo nad yw ei lwyth gwaith yn caniatáu seibiannau digonol, dylid tynnu sylw Pennaeth Gwasanaeth yr unigolyn at hynny.
- lle bo angen, rhoddir hyfforddiant a gwybodaeth i staff i'w helpu i osod eu gweithfan yn gywir.

## **5. Dyletswyddau cyflogeion**

- 5.1 Disgwylir i gyflogeion lenwi'r holiadur hunanasesu DSE yn amserol. Mae gofyn iddynt hefyd osod a gweithredu eu gweithfannau yn gywir. Os ceir unrhyw anawsterau gyda'r gweithfannau, dylai'r cyflogeion ddwyn sylw eu Pennaeth Gwasanaeth at hynny cyn gynted ag y bo modd.

## **6. Profion llygaid**

- 6.1 Mae gan unrhyw gyflogai sydd wedi'i ddynodi yn ddefnyddiwr DSE yr hawl i ofyn am prawf llygaid. Bydd hyn yn cael ei drefnu drwy optegydd o ddewis y cyflogai.
- 6.2 Fodd bynnag, cyfrifoldeb y cyflogai yw gwneud trefniadau i gael y prawf llygaid. Lle bo modd, disgwylir i'r cyflogai drefnu apwyntiad ar gyfer dechrau neu ddiwedd y dydd. Mae'n rhaid i'r cyflogai gael derbynneb ar gyfer y prawf llygaid a'i hanfon ymlaen at y Gwasanaeth Personél i gael ad-daliad drwy'r Gyflogres.
- 6.3 Yn dilyn y prawf llygaid cychwynnol, bydd amllder unrhyw brofion dilynol yn cael ei benderfynu gan yr optegydd ei hun ac yn cael ei gofnodi ar y ffurflen a ddefnyddir i bennu dyddiad y prawf llygaid nesaf.

## **7. Cyflenwi sbectol**

- 7.1 Pan fo'r optegydd wedi cadarnhau bod angen sbectol yn benodol at ddefnydd DSE, bydd yr Awdurdod yn cyfrannu hyd at uchafswm o £50 tuag at y gost. Petai'r cyflogeion yn dymuno prynu pâr o sbectol ddrutach, yna bydd y swm hwn ar gael tuag at y gost. Bydd angen i'r cyflogai unigol dalu'r gweddill.

*Gwybodaeth bellach*

*HSE: INDG 36 (rev 4), Gweithio gyda chyfarpar sgrin arddangos (DSE) – canllaw cryno*